# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**SOC(3)-02-08 (p2) Dydd Mawrth 3 Mehefin 2008**

### Teitl: Rolau a Chyfrifoldebau Gwahanol Aelodau Etholaeth ac Aelodau Rhanbarthol

### Cefndir

1. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi y dylai'r rheolau sefydlog gynnwys darpariaeth ynghylch (neu ar gyfer gwneud cod neu brotocol ynghylch) rolau a chyfrifoldebau gwahanol Aelodau etholaeth ac Aelodau rhanbarthol: a

(a) Rhaid i Aelodau etholaeth y Cynulliad beidio â disgrifio eu hunain mewn ffordd sy'n awgrymu eu bod yn Aelodau rhanbarthol y Cynulliad, a

(b) Rhaid i Aelodau rhanbarthol y Cynulliad beidio â disgrifio eu hunain mewn ffordd sy'n awgrymu eu bod yn Aelodau etholaeth y Cynulliad.

2. Yn unol â hynny, mae Rheol Sefydlog 1.13 yn nodi bod rhaid i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ddrafftio cod neu brotocol i'r Cynulliad ei wneud, yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf, ynghylch rolau a chyfrifoldebau gwahanol Aelodau etholaeth ac Aelodau rhanbarthol. Rhaid i'r cod neu'r protocol gynnwys darpariaeth yn unol â'r pum egwyddor allweddol benodol a'r manylion a nodir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 1.

3. Amgaeir manylion Rheol Sefydlog 1.13 a'r Atodiad i Reol Sefydlog 1 yn Atodiad A.

### Argymhellion

4. Gwahoddir y pwyllgor i drafod yr angen i ddrafftio cod neu brotocol, a thrafod y ffordd y byddai'r pwyllgor yn dymuno cymryd camau ynghylch y mater er mwyn llunio drafft o'r fath.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Mehefin 2008**

# Atodiad A

## Rolau a Chyfrifoldebau Gwahanol Aelodau Etholaeth ac Aelodau Rhanbarthol

1.13 Rhaid i'r Cynulliad wneud cod neu brotocol, i'w ddrafftio gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf, ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau gwahanol Aelodau etholaeth ac Aelodau rhanbarthol. Rhaid i'r cod neu'r protocol gynnwys darpariaeth yn unol â'r pum egwyddor allweddol ganlynol a'r Atodiad i Reol Sefydlog 1:

i. mae pob Aelod o dan ddyletswydd i fod yn hygyrch i bobl yr ardaloedd y maent wedi'u hethol i'w gwasanaethu ac i gynrychioli eu buddiannau yn gydwybodol;

ii. wrth iddynt droi at eu dewis Aelod, dymuniadau'r etholwyr a/neu fuddiannau'r etholaeth neu'r ardal sydd o'r pwys pennaf;

iii. mae gan bob Aelod statws cyfartal;

iv. ni ddylai Aelodau gamliwio ar ba sail y maent wedi'u hethol na pha ardal y maent yn ei gwasanaethu; a

v. ni ddylai Aelod ymdrin ag achos etholaeth neu fater etholaeth nad yw o fewn ei etholaeth neu ei ranbarth (yn ôl fel y digwydd), heblaw drwy gytuno ymlaen llaw.

### Rheol Sefydlog 1 - Aelodau: Atodiad

Y ddarpariaeth sydd i'w chynnwys yn y cod neu'r protocol a baratoir yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf

### Disgrifio'r Aelodau

1. Darpariaeth i'r Aelodau rhanbarthol a'r Aelodau etholaeth eu disgrifio'u hunain yn gywir ac ar gyfer gofynion ynglŷn â defnyddio adnoddau'r Cynulliad, er enghraifft, deunyddiau swyddfa.

### Ymdrin â Materion Etholaeth/Rhanbarth

2. Darpariaeth i'r Aelodau ymgymryd â mater sy'n effeithio ar yr etholaeth neu'r rhanbarth y'u hetholwyd drosti neu drosto gan sicrhau moesgarwch ar yr un pryd ynglŷn â materion sy'n effeithio ar fwy nag un etholaeth.

### Achosion Etholwyr Unigol

3. Darpariaeth i ddiogelu hawl etholwr i droi at ei Aelod etholaeth, a/neu unrhyw un o'r pedwar Aelod rhanbarthol a etholwyd yn rhanbarth yr etholwr.

### Codi Materion gydag Aelod o'r Llywodraeth

4. Darpariaeth i sicrhau bod gan unrhyw Aelod hawl i godi mater gyda'r aelod perthnasol o'r llywodraeth ar ran etholwr yn yr ardal (yr etholaeth ynteu'r rhanbarth) y'i hetholwyd drosti.

### Aelodau yn Gweithredu yn eu Hardaloedd

5. Darpariaeth yn adlewyrchu'r disgwyliad y bydd yr Aelodau yn gweithio ledled yr ardal (yr etholaeth ynteu'r rhanbarth) y'i hetholwyd drosti.

### Ymweliadau Ysgolion

6. Darpariaeth ar gyfer hysbysu'r Aelodau ynglŷn ag ymweliadau swyddogol ysgolion â'r Cynulliad a drefnir gan y Comisiwn.

### Ymholiadau Ffôn

7. Darpariaeth i lywio sut yr ymdrinnir ag ymholiadau ffôn i switsfwrdd y Cynulliad gan aelodau o'r cyhoedd sy'n ceisio cysylltu ag Aelod.

### Staff yr Aelodau

8. Darpariaeth y dylai'r Aelodau sicrhau bod y staff sy'n gweithio iddynt, yn y Cynulliad ac yn lleol, gan gynnwys eraill sy'n gweithio ar eu rhan gydag etholwyr, yn ymwybodol o Reol Sefydlog 1.13 ac unrhyw god neu brotocol a lunnir o ganlyniad iddi a'u bod yn gweithredu yn unol â hwy.

### Gorfodi

9. Darpariaeth i unrhyw gŵyn yn erbyn Aelod mewn perthynas â'r cod neu'r protocol gael ei chyfeirio at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.